

Diweddariad am Rwydweithiau Hwb

Yn dilyn adborth o ymchwil defnyddwyr, mae gwelliannau'n cael eu gwneud i blatfform Hwb er mwyn rhoi gwell cymorth ar gyfer cydweithio. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd Rhwydweithiau Hwb yn cael eu datgomisiynu yn ystod hanner tymor mis Hydref 2026, a dylai awdurdodau lleol ac ysgolion symud i offeryn amgen.

Nid yw bellach yn bosibl creu rhwydweithiau newydd yn offeryn presennol Rhwydwaith Hwb. Bydd rhwydweithiau presennol yn dal i fod ar gael tan hanner tymor mis Hydref 2026.

Ni fydd aelodaethau, trafodaethau na ffeiliau yn trosglwyddo'n awtomatig i blatfform amgen. Perchnogion rhwydwaith sy'n gyfrifol am reoli'r broses o symud cynnwys ac aelodau i'w hofferyn newydd.

Dyddiadau allweddol

Dyddiad	Beth sy'n digwydd
Nawr	Dylai defnyddwyr benderfynu pa offeryn amgen sy'n diwallu eu hanghenion orau a dechrau cynllunio eu gwaith mudo.
Hanner tymor mis Hydref 2026	- Mae'r offeryn Rhwydweithiau Hwb presennol yn troi'n ddarllen-yn-unig. - Mae offeryn rhwydwaith Hwb newydd yn cael ei lansio. - Bydd y ddau wasanaeth ar gael tan 30 Tachwedd 2026, gan roi amser i ddefnyddwyr fudo cynnwys ac aelodau.
30 Tachwedd 2026	Bydd gwasanaethau presennol Rhwydweithiau Hwb a'r holl ddata cysylltiedig yn cael eu dileu'n barhaol ac ni fydd modd eu hadfer.

Offer amgen ar gael trwy Hwb

Bydd tri datrysiad amgen ar gael trwy Hwb:

- 1) Microsoft Teams
- 2) Google Classroom
- 3) Offeryn rhwydwaith newydd - yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Disgwylir mai dyma'r dewis amgen agosaf at offeryn presennol Rhwydweithiau Hwb. Bydd yn cefnogi trafodaethau a'r gallu i rannu ffeiliau yn uniongyrchol o OneDrive a Google Drive.

Camau i'w cymryd

- Penderfynwch pa offeryn amgen y byddwch chi'n ei ddefnyddio - Microsoft Teams, Google Classroom, neu'r offeryn Rhwydweithiau Hwb newydd.
- Adolygwch eich rhwydwaith a chadwch unrhyw ffeiliau, adnoddau neu gynnwys trafodaethau y gallech chi fod eu hangen yn y dyfodol. Bydd y cynnwys sy'n weddill yng ngwasanaeth presennol Rhwydweithiau Hwb yn cael ei ddileu'n barhaol ar ôl 30 Tachwedd 2026.
- Os byddwch chi'n dewis Microsoft Teams neu Google Classroom, gallwch ddechrau mudo'ch cynnwys a'ch aelodau ar unwaith.

Cefnogaeth ar gyfer defnyddio Microsoft Teams fel dewis amgen

[Sut i greu fîm staff yn Microsoft Teams](#)

[Sut i greu fîm Cymuned Dysgu Proffesiynol yn Microsoft Teams](#)

[Get started with Microsoft Teams for Education](#)

[Get started with Microsoft Teams for Education](#)

Pethau i'w hystyried

- Wrth greu fîm, dewiswch yr opsiwn 'Cymuned Dysgu Proffesiynol' ('*Professional Learning Community*') neu 'staff'.
- Gall Microsoft Teams deimlo'n brysur os nad yw hysbysiadau yn cael eu rheoli. Dysgwch sut i [reoli hysbysiadau](#)

Cefnogaeth er mwyn defnyddio Google Classroom fel dewis amgen

[Cyrsiau i ddysgu mwy am Google Classroom](#)

Pethau i'w hystyried

- Gellir gwneud cyhoeddiadau yn Google Classroom, ond mae sgysiau fel arfer yn gysylltiedig â negeseuon neu aseiniadau penodol, yn hytrach na thrafodaethau aml-drywydd parhaus.
- Gan amlaf, defnyddir Google Classroom i reoli dosbarthiadau a llif gwaith rhwng ymarferwyr a dysgwyr ond gellir ei ddefnyddio ar gyfer cydweithio rhwng staff. Sylwer, mae angen i'r holl staff fod â chyfrif Hwb.

Cymorth

Os oes angen cymorth arnoch chi, cysylltwch â Hwb.Datblygiadau@llyw.cymru neu Hwb.Development@gov.wales